



## Cofnodion Cyfarfod 08-01-19

**Presennol** Cynghorwyr John Emlyn Jones (Cadeirydd), Wendy Williams, Gwilym Williams, John Lloyd Williams, Phyllis Purchase, Ceri Leeder, Austin Roberts a Delyth Wynne (Clerc)

**Ymddiheuriadau** Arthur Williams, Gwenan Roberts

### 1. CROESO

Croesawodd y Cadeirydd y Cynghorwyr i'r cyfarfod a dymunodd Flwyddyn Newydd Dda i bawb.

### 2. YMDDIHEURIADAU

Dim wedi eu derbyn.

### 3. DATGAN DIDDORDEB

Dim.

### 4. COFNODION - Cadarnhau ac arwyddo cofnodion y cyfarfod diwethaf (04/12/18).

Cynigwyd y cofnodion yn gywir gan Cyng Phyllis. Eiliwyd gan Cyng John.

Newid i'r cofnodion - John Lloyd Williams nid John Lloyd Roberts yn yr eitem sieciau.

### 5. MATERION YN CODI

- **Sedd Wag y Cyngor**  
Gofyn am gyfethol a Cyng Ceri wedi ei roi ar Facebook. Dyddiad cau 31/01/19. Bydd angen pleidleisio yn y cyfarfod nesaf.
- **Arwydd Dim Cwn (ar y Green)** - dal heb fynd i fyny.
- **Cae Chwarae** - Cyngor Sir wedi dweud wrth Cyng Austin eu bod am drwsio nid adnewyddu. Am gychwyn grwp T&F i edrych ar sut i gael mwy o arian ar gyfer caeau chwarae. Cyng Austin yn adrodd y bydd gofyn i'r Cyngor Cymuned dalu am dorri'r glaswellt yn y cae chwarae. Cost o £900 y flwyddyn am 7 toriad (£120 y toriad) fydd i dorri'r gwair gan Wil Williams.
- **Ail-gylchu** - dim diweddariad.
- **Sgip** - cafwyd defnydd da o'r sgip. Mae angen cynghori defnyddwr tro nesaf bod angen rhoi eitemau tebyg gyda'u gilydd i hwyluso'r broses. Mae son y bydd y Cyngor Sir yn codi am gasglu gwastraff gardd o 2020 ymlaen.
- **Llwybyr Chwarel y Nant** - cafwyd trafodaeth am y chwarel. Dywedodd Cyng Austin bod ganddo dystiolaeth nad oedd y chwarael yn eiddo i neb. Gofynnodd os oedd y Cyngor Cymuned am wneud hawl amdano. Os ydy'r Cyngor yn gwneud hawl amdano bydd rhaid adeiladu ffens. Hwyrach buasai'n bosibl cael cefnogaeth gan Un Llais Cymru. Bydd y Cyngor Sir yn gyfrifol am y gamfa. Mae angen cofnodion y cyfarfod lle penderfynwyd codi'r ffens. Gofynnodd y Cadeirydd os oedd cynnig i roi cais i mewn. Cyng John yn cynnig. Cyng Phyllis yn eilio. Cyng Ceri yn ymatal.



- **Praesept 2019/20**

**I ddod:**

Archwiliad Ariannol - £300  
Marian Pryor - £100  
Clerc - £600  
HMRC - £225  
Eisteddfod - £1,000

**Balans - £8,409.00 (diwedd Mawrth 2019)**

+ £1,000 torri glaswellt

Cyng John yn cynnig cadw y Praesept yr un fath.  
Cyng Austin yn cynnig codi y Praesept 5%. Cyng Ceri yn eilio.  
Cyng Gwilym yn cynnig codi y Praesept 2.5%.

Aeth y cynghorwyr i bleidlais am godi y Praesept i 5% - 4 o gynghorwyr o blaid.  
Pleidlais wedi ei gario.

## **6. CYNLLUNIO**

Dim.

## **7. ADRODDIAD ARIANNOL**

- Cyfredol - £7,296.44
- Angladdau - £1,423.20
- Cadw - £2,071.93

**Sieciau:**

- Sue Hayward (Llnau Toiledau) - £122.50
- HMRC - £50.00
- Delyth Wynne (Clerc) - £200.00
- Arfon Parry (Safle We) - £24.40 (ail ysgrifennu siec oherwydd camgymeriad)

## **8. GOHEBIAETH**

Dim.

## **9. UNRHYW FATER ARALL**

- Safle Bws - Cyng Phyllis wedi siarad gyda'r Heddlu - Swyddog Heddlu Cymunedol am gael ei yrru i'r pentref i fonitro'r sefyllfa.
- Ffordd Henblas - dwr ar y ffordd- DW wedi cysylltu, dim ateb eto. Cyng Austin i son wrth Emyr.
- Cyng Phyllis - y cwpwl (Wil a Karen) yn hapus iawn i fod yn 'wardeiniaid llifogydd'. Mae hyfforddiant ar gael. Y clerc i ofyn am hyfforddiant gan Gyngor Conwy.
- Steve - ochr Plas o'r afon - darn wedi ei dyllu i ffwrdd a hen ffens wedi disgyn i mewn. Steve yn poeni bod hyn yn mynd i ochosi problem. Cyng Austin i gael gyda Wyn.



- Ffordd yn disgyn Heol Ffynnon Asa - Cyng Phyllis - Dwr Cymru yno cyn y nadolig. Wedi trwsio y bibell carthffosiath ar bibell dwr arwynebol - darn newydd o flaen ty Cyng Phyllis. Falch ofnadwy o'r gwaith wnaeth Dwr Cymru (Lawson Contractors).
- Hysbysfwrdd - y gair 'Eglwysbach' wedi mynd yn ddu. Gofynnodd Cyng Ceri os ydy hi'n bosib cael rhywyn i edrych arno. Hefyd mae angen clo newydd arno. Cytunnodd pawb i hyn.
- Ymholiad - golau cerbyd wedi ei weld ar ffordd Bryn Hir - 3.30 a 6.20 y bore.
- Cwyn - sbwriel yn disgyn allan o'r lorïau ail-gylchu oherwydd nad ydynt yn cau yr ochrau ail-gylchu ar y lorïau wrth symud o un ty gwledig i'r llall.
- Cyng Gwilym yn gofyn am ohirio fod yn Gadeirydd am y flwyddyn nesaf 2019/20 - methu rhoi amser teg i'r gwaith oherwydd pwysau gwaith. Bydd angen penodi isgadeirydd newydd yn y cyfarfod nesaf.
- Tudalen Facebook - baw ci yn annerbyniol. Mae angen ailadrodd bod angen cadw cwn ar dennyn.
- Cyng Austin - Heol Martin - digwyddiad o faw ci yn cael ei roi ar sgrin ffrynt a cefn car.
- Diolchodd y Cyngorwyr i Mr Paul Williams a Mr Paul Roberts am y goeden Nadolig gwych.
- Penderfynwyd rhoi £1,000 at yr Eisteddfod.
- Cae Chwarae - arwydd wedi torri - Cyng Austin i drafod gyda'r Cyngor Sir.
- Bocs Llywd BT wrth y Siop - drws wedi dod i ffwrdd.

#### 10. DYDDIADAU Y CYFARFODYDD NESAF

05/02/19  
05/03/19  
02/04/19  
07/05/19  
04/06/19  
02/07/19  
03/09/19  
01/10/19  
05/11/19  
03/12/19

Gorffennodd y cyfarfod am 8.40pm